# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD MAWRTH, 26AIN IONAWR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 19 Ionawr 2021)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

Gareth Tudor Morris Jones

Edgar Wyn Owen

Dafydd Owen (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 6

Red Lion, Porthmadog

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o’r pedwar egwyddor o’r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **26 Ionawr 2021** |
| **TEITL:** | **CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - RED LION, PORTHMADOG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais amrywio trwydded eiddo Red Lion, 13-15 Heol Newydd, Porthmadog, LL49 9ED gan asiant o Admiral Taverns, Darren Kelly. Mae'r ymgeisydd yn ceisio amrywiad i 'r drwydded eiddo presennol oherwydd newid i gynlluniau mewnol y tŷ tafarn, ac i gynnwys ardal allanol fel man trwyddedig.

1.2 Er bod y gardd cwrw wedi'i drwyddedu'n barod, gwneir y cais i ymestyn ardal trwyddedig yr eiddo i gynnwys strwythurau ar steil cytiau glan y mor. Bydd alcohol yn cael ei archebu ai weini drwy ffenest yng nghefn yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cais gan aelod o'r cyhoedd, a sylwadau gan y Cynghorydd lleol. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan yr Heddlu, Cyngor Tref na'r Gwasanaeth Tân . Cafwyd hefyd sylwadau gan y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ; mewn perthynas a defnydd yr ardal tu allan gyda'r nos.

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Yn unol a'r cais cynllunio ni fydd alcohol yn cael ei weini drwy'r ffenest ar ôl 21:00
- Ni ddefnyddir y cytiau traeth ar ôl 21:00
- Mae system teledu cylch cyfyng wedi uwchraddio i gynnwys mannau mewnol ac allanol
- Cynhelir polisi dim goddef ymddygiad cyffuriau
- Rheolwyr a staff i fod ar y safle i gadw rheolaeth o lefel sŵn y gardd cwrw
- Rhaid i blant wastad fod o dan oruchwyliaeth oedolyn

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau'r cyhoedd / preswylwyr cyfagos | E-byst – gwrthwynebiad |
| Cynghorydd | E-bost – sylwadau |
| Gwarchod y Cyhoedd | E-bost – sylwadau |

## 3.2 Aelodau'r cyhoedd a phreswylwyr cyfagos

Derbyniwyd 1 e-bost yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o:

- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal trosedd ac anrhefn

3.1 Mynegwyd pryderon ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, niwsans cyhoeddus, materion glanweithiol a throsedd ac anrhefn. Fe gefnogwyd y gwrthwynebiad gyda thystiolaeth gyfoes berthnasol a oedd yn cynnwys clipiau fideo byr , yn ogystal a lluniau oddi ar sgrin ffon yn dangos yr amser a'r dyddiad y cymerwyd y clipiau fideo .

3.2 Nodwyd fod Caniatâd cynllunio diweddar yn cynnwys amod nad oedd y cabannau glan y mor a ganiatawyd yn yr ardd gwrw i'w defnyddio gan gwsmeriaid ar ôl 9 yr hwyr.

3.3 Pan ail agorwyd yr eiddo ar gyfer cwsmeriaid yn dilyn cwblhau gwelliannau; yn fuan ar ôl hynny nos Wener y 13/11/20 ac nos Sadwrn y 14/11/20 fe dystiodd yr ymatebydd fod llawer o gwsmeriaid yn parhau allan yn yr ardd gwrw, ac yn y cabannau Glan y Mor , yn cadw sŵn ac yn parhau i gario diodydd alcohol allan yno o'r dafarn tan 10 yr hwyr – yn groes i'r amod Cynllunio.

3.4 Ymhellach i hyn, ar nos Wener y 20/11/20 a nos Sadwrn y 21/11/20 , yn ogystal a'r nos Wener a nos Sadwrn dilynol – y 27/11/20 a'r 28/11/20 fe dystiwyd cwsmeriaid yn cario diodydd alcohol i'r cabannau yn yr ardd gwrw ac yn cadw sŵn tan ar ôl 10 yr hwyr. Ar nos Iau y 3ydd o Ragfyr , tystiwyd fod y cytiau yn yr ardd gwrw yn llawn, gyda cwsmeriaid yn swnllyd tan ar ôl 10 yr hwyr eto.

3.5 Fe ddaeth rheoliadau covid llym i mewn ar y 4ydd o Ragfyr felly nid oedd y dafarn yn agored ar ôl hyn. Fe gyflwynodd yr ymatebydd clipiau fideo a lluniau scrin o'r amser a'r dyddiadau i gefnogi yr hyn a dystiwyd.

## 3.6 Cynghorydd lleol

Mynegwyd pryder sŵn a niwsans cyhoeddus i'r preswylwyr cyfagos o ran defnydd y gardd tu allan, a pwysleisiodd fod rhaid i werthiant alcohol ddod i ben am 21:00.

## 3.7 Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd sylwadau Adran Gwarchod y Cyhoedd nad oes gwrthwynebiad, cyn belled fod gwerthiant alcohol tu allan a defnydd y cytiau traeth yn terfynu am 21:00. Cynigir fod amodau ar y trwydded gwreiddiol yn trosglwyddo i'r drwydded newydd, os caniateir y cais.

## 4 ARGYMHELLIAD

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir gan breswylydd cyfagos yn destun pryder ; ac nid yw yn rhoi llawer o hyder yn gallu deilydd y drwydded i gydymffurfio petai y cais yn cael ei ganiatáu. Argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried os oes angen gosod unrhyw ragofalon ychwanegol ar amodau'r drwydded os ydynt yn penderfynu caniatáu'r cais yn unol a sylwadau Gwarchod y Cyhoedd a gofynion y Deddf Drwyddedu 2003.